

Gadael Neuadd

Mae eich Cytundeb Preswyllo am gyfnod penodol ac ni ellwch adael Neuadd yn ystod y cyfnod hwn oni bai y gellwch ddarparu tenant arall i gymryd drosodd weddill eich contract. Rhaid iddo/iddi fod yn fyfyrwr sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol ac yn dderbyniol i'r Brifysgol.

Os ydych yn fyfyrwr israddedig, rhaid i'r tenant a ddaw'n eich lle hefyd fod yn fyfyrwr israddedig. Os ydych yn fyfyrwr ôl-radd, mae'n rhaid i'r tenant newydd hefyd fod yn fyfyrwr ôl-radd. Weithiau hefyd mae'n rhaid i'r tenant newydd fod o'r un rhyw â'r tenant sy'n gadael. Gofynnwch am ganllawiau yn y Swyddfa Neuaddau. NI DDYLAI'R myfyrwr sy'n dod yn eich lle fod yn byw eisoes mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Dylech alw yn y Swyddfa Neuaddau gyda'r tenant sy'n dod yn eich lle i drefnu trosglwyddo'r Cytundeb Preswyllo. Codir tâl arnoch nes gall y tenant arall symud i'r ystafell (mae hyn yn cynnwys amser i lanhau'r ystafell - 48 awr fel rheol) a hefyd dâl gweinyddol o £25.00.

Os byddwch yn rhoi'r gorau i fod yn fyfyrwr yn y Brifysgol, nid oes unrhyw reidrwydd ar ein rhan i derfynu eich cytundeb. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn cytuno i derfynu'r cytundeb os gellwch gydymffurfio â'r amodau canlynol:

1. Rhoi copi i'r Swyddfa Neuaddau o'ch ffurflen 'Gadael Astudiaethau' a *gawsoch* gan y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr (israddedigion) neu dystiolaeth arall o adael astudiaethau (ôl-raddedigion).
2. Glanhau eich ystafell a chael gwared ar yr holl ysbwriel.
3. Dychwelyd eich holl allwedd/cardiau ystafell i'r Swyddfa Neuaddau, neu i'r Swyddfa Ddiogelwch ar Safle Ffriddoedd, neu'r Swyddfa Ddiogelwch ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau.
4. Talu 4 wythnos arall o rent o ddyddiad dychwelyd yr allwedd/cerdyn. Os gellwch ddarparu tenant newydd i'r ystafell, nad yw'n byw ar hyn o bryd mewn llety o eiddo'r Brifysgol, codir yn unig arnoch nes bydd y tenant newydd yn symud i'r ystafell (48 awr ar ôl i chi adael fel rheol). Os bydd y Brifysgol yn gallu cael tenant newydd i'r ystafell, codir arnoch yn unig nes bydd y tenant newydd yn symud i'r ystafell. Os na fyddwch yn dychwelyd eich allwedd/cerdyn i'r Swyddfa Neuaddau / Swyddfa Ddiogelwch ar y dyddiad gadael y cytunwyd arno, neu cyn hynny, byddwch yn dal i orfod talu nes byddwn yn derbyn yr allwedd/cerdyn.
5. Talu tâl gweinyddol o £25.